Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

Rhan 2:

# Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr

Cyhoeddiad gwreiddiol **17 Mai 2018**
Cyhoeddiad newydd **25 Ebrill 2023**



# Cynnwys


Ynglŷn â’n safonau 3

Rhagarweiniad 4

Ymarfer dysgu effeithiol 5

Goruchwylio myfyrwyr 6

Asesu myfyrwyr a chadarnhau hyfedredd 9


Cymeradwywyd y safonau hyn gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth 2018 ac fe’u diweddarwyd ar 8 Hydref 2018 i gynnwys rheoli rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru.

Cyhoeddwyd y safonau hyn o’r newydd ar 25 Ebrill 2023 i alinio â chyhoeddi’r safonau a diweddarwyd ar gyfer addysg a hyfforddiant a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 25 Ionawr 2023.

# Ynglŷn â'n safonau

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys y Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio[1] a bydwreigiaeth, Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr, a safonau rhaglenni penodol i bob rhaglen gymeradwy.

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant wedi'u nodi mewn tair rhan:

Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth

Rhan 2: Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr

Rhan 3: Safonau rhaglenni:

- Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru
- Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru
- Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru
- Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi
- Safonau ar gyfer rhaglenni ôl-gofrestru: rhaglenni'n arwain at gymwysterau nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a rhaglenni'n arwain at gymwysterau ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol
- Safonau ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer

Gellir canfod gwybodaeth ategol ar gyfer ein Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr ar ein gwefan.

Mae'r safonau hyn yn helpu myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth i gyflawni hyfedredd a chanlyniadau rhaglen yr NMC. Rhaid i bob gweithiwr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol ymarfer yn unol â gofynion y Cod, y safonau proffesiynol o ymarfer ac ymddygiad y disgwylir i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu cynnal.

---

**1** Rydym wedi defnyddio'r term 'nyrsio' yn y ddogfen hon i gyfeirio at waith nyrsys a chymdeithion nyrsio. Mae cymdeithion nyrsio'n broffesiwn ar wahân yn Lloegr gyda'u rhan eu hunain ar ein cofrestr, ond maent yn rhan o'r tîm nyrsio.

# Rhagymadrodd

Mae ein safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer y dysgu, cefnogaeth a goruchwyliaeth myfyrwyr yn yr amgylchedd ymarfer. Maent hefyd yn nodi sut mae myfyrwyr yn cael eu hasesu ar gyfer theori ac ymarfer.

Mae Erthygl 15(1) o'r **Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001** ('**y Gorchymyn**') yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd safon hyfedredd ar gyfer ymuno â'r gofrestr, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 5(2) o'r Gorchymyn. Caiff y Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr eu sefydlu yn unol â darpariaeth Erthygl 15(1) o'r Gorchymyn.

Nod y safonau hyn yw rhoi'r hyblygrwydd i sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) a phartneriaid dysgu ymarfer datblygu dulliau arloesol o addysgu nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, tra bod yn gyfrifol am gyflwyno a rheoli rhaglenni cymeradwy yn lleol yn unol â'n safonau. Mae diogelwch y cyhoedd yn ganolog i'n safonau. Bydd myfyrwyr mewn cysylltiad â phobl drwy gydol eu haddysg ac mae'n bwysig eu bod yn dysgu mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Mae'r Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr yn gymwys i bob rhaglen a gymeradwywyd gan yr NMC, a dylid eu darllen ar y cyd â Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth yr NMC a'r safonau rhaglenni sy'n benodol i'r rhaglen sy'n cael ei chyflenwi. Rhaid i sefydliad addysg gydymffurfio â'r holl safonau hyn er mwyn cael ei gymeradwyo a chynnal rhaglenni a gymeradwywyd gan yr NMC.

Mae ein Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr wedi'u nodi o dan y tri phennawd canlynol:

### Dysgu ymarfer effeithiol (adran 1)

Mae'r safonau hyn yn disgrifio'r hyn y mae angen ei roi ar waith er mwyn cyflenwi profiadau dysgu diogel ac effeithiol i fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth wrth ymarfer.

### Goruchwylio myfyrwyr (adrannau 2 i 5)

Yma, rydym yn disgrifio egwyddorion goruchwylio myfyrwyr yn yr amgylchedd ymarfer, a rôl y goruchwylydd ymarfer.

### Asesiad o fyfyrwyr a chadarnhau hyfedredd (adrannau 6 i 10)

Yn y safonau hyn, rydym yn nodi'r hyn y mae angen i addysgwyr sy'n asesu ac yn cadarnhau ymarfer a chyflawniad academaidd myfyrwyr. Rydym yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau'r aseswr ymarfer a'r aseswr academaidd.

Rhaid i bob un o'r rolau a ddisgrifir fod mewn lle er mwyn i sefydliadau addysg a phartneriaid dysgu ymarfer gyrraedd ein safonau. Gellir cyflwyno rolau ychwanegol yn unol â gofynion lleol neu genedlaethol. Bydd arweinwyr rhaglenni yn cadarnhau cyflawni hyfedreddau pob myfyriwr ar raglen fel y nodir yn y Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth a'r safonau rhaglenni sy'n benodol i'r rhaglen.

Mae'r Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn galluogi arloesi lleol wrth gyflenwi rhaglenni; fe'u cynlluniwyd i weithio ar draws pob rhaglen ac ym mhob lleoliad. Gellir bod yn hyblyg wrth oruchwylio ac asesu myfyrwyr, cyn belled â bod y sefydliadau addysg a'r partneriaid dysgu ymarfer yn cyrraedd ein safonau. Rhaid i fyfyrwyr sy'n dysgu wrth ymarfer neu sy'n dysgu yn y gwaith gael eu cefnogi i ddysgu. Gall hyn gynnwys bod â statws ychwanegol, sy'n golygu na chânt eu cyfrif wrth ystyried faint o staff sydd eu hangen i roi gofal diogel ac effeithiol yn y lleoliad hwnnw. Dylid penderfynu ar lefel y goruchwylio ar sail anghenion y myfyriwr unigol. Gall lefel y goruchwylio ostwng wrth i hyfedredd a hyder y myfyriwr wella. Rhaid gwneud addasiadau yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol berthnasol ym mhob amgylchedd dysgu ac wrth i'r myfyrwyr gael eu goruchwylio a'u hasesu.

# Ymarfer dysgu effeithiol

Rhoddir profiadau dysgu diogel, effeithiol a chynhwysol i bob myfyriwr. Ym mhob amgylchedd dysgu darperir y trefniadau llywodraethu a'r adnoddau sydd eu hangen i addysgu a hyfforddi. Mae myfyrwyr yn mynd ati i gymryd rhan yn eu haddysg eu hunain yn weithredol ac yn dysgu gan amrywiaeth o bobl mewn lleoliadau gwahanol.

### 1. Trefnu dysgu ymarfer

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer sicrhau bod:

**1.1** dysgu ymarfer yn cydymffurfio â Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth yr NMC

**1.2** dysgu ymarfer yn cydymffurfio â safonau rhaglenni penodol

**1.3** dysgu ymarfer wedi'i gynllunio i gyrraedd safonau hyfedredd a chanlyniadau sy'n berthnasol i'r rhaglen

**1.4** systemau, prosesau, adnoddau ac unigolion addas ar gael i sicrhau y caiff dysgu mewn amgylchiadau dysgu ymarfer ei gydgysylltu'n ddiogel ac yn effeithiol

**1.5** person wedi'i enwebu ym mhob lleoliad ymarfer i gefnogi myfyrwyr a mynd i'r afael â'u pryderon

**1.6** myfyrwyr yn ymwybodol o'r gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ym mhob amgylchedd dysgu

**1.7** myfyrwyr yn cael eu grymuso i fod yn rhagweithiol a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu

**1.8** myfyrwyr yn cael cyfleoedd i ddysgu gan ystod o bobl berthnasol mewn amgylcheddau dysgu ymarfer, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, unigolion cofrestredig ac anghofrestredig a myfyrwyr eraill fel sy'n briodol

**1.9** profiadau dysgu yn gynhwysol ac yn diwallu anghenion amrywiol myfyrwyr unigol

**1.10** profiadau dysgu yn cael eu teilwra i gam dysgu'r myfyriwr, safonau hyfedredd a chanlyniadau rhaglenni, a

**1.11** bod pob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio'n cyfrannu at ddysgu ymarfer yn unol â'r Cod.

# Goruchwylio myfyrwyr

Mae goruchwylio ymarfer yn galluogi myfyrwyr i ddysgu a chyrraedd safonau hyfedredd ac ymreolaeth yn eu rôl broffesiynol yn ddiogel. Mae pob un o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio cofrestredig yr NMC yn gallu goruchwylio myfyrwyr, gan osod esiampl o ran ymarfer ddiogel ac effeithiol. Gall myfyrwyr gael eu goruchwylio gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol cofrestredig eraill.

## 2. Disgwyliadau goruchwylio ymarfer

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer, sicrhau bod:

**2.1** a pob myfyriwr ar raglen a gymeradwywyd gan yr NMC yn cael ei oruchwylio pan fydd yn dysgu wrth ymarfer

**2.2** myfyrwyr yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio wrth ymarfer er mwyn sicrhau bod y dysgu'n ddiogel ac yn effeithiol

**2.3** lefel y goruchwylio a ddarperir i fyfyrwyr yn adlewyrchu anghenion dysgu a cham y dysgu

**2.4** goruchwylio ymarfer yn sicrhau dysgu diogel ac effeithiol sy'n amddiffyn a diogelu'r cyhoedd ac yn diogelu pobl

**2.5** digon o gydgysylltu a pharhad cefnogaeth a goruchwylio myfyrwyr i sicrhau profiadau dysgu diogel ac effeithiol

**2.6** goruchwylio ymarfer yn hwyluso dysgu'n annibynnol, a

**2.7** bod pob myfyriwr ar raglen a gymeradwywyd gan yr NMC yn cael ei oruchwylio wrth ymarfer gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio cofrestredig yr NMC a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol cofrestredig eraill.

## 3. Goruchwylwyr ymarfer: rôl a chyfrifoldebau

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer, sicrhau bod y goruchwylwyr ymarfer yn:

**3.1** gosod esiampl o ran ymarfer ddiogel ac effeithiol yn unol â'u cod ymarfer

**3.2** cefnogi dysgu yn unol â'u cwmpas ymarfer er mwyn galluogi'r myfyriwr i gyrraedd y safonau hyfedredd a chanlyniadau rhaglenni

**3.3** cefnogi ac yn goruchwylio myfyrwyr, gan roi adborth ar eu cynnydd tuag at, a chyflawni hyfedreddau a sgiliau

**3.4** meddu ar wybodaeth gyfredol a phrofiad o'r maes y maent yn rhoi cefnogaeth, goruchwyliaeth ac yn rhoi adborth ynddo, a

**3.5** derbyn cefnogaeth barhaus i fod yn rhan o ddysgu ymarfer myfyrwyr.

## 4. Goruchwylwyr ymarfer: cyfraniad at asesu a dilyniant

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer, sicrhau bod y goruchwylwyr ymarfer yn:

**4.1** cyfrannu at gofnod y myfyriwr o gyflawni trwy gofnodi, o bryd i'w gilydd, arsylwadau perthnasol ar ymddygiad, hyfedredd a chyflawni'r myfyrwyr y maent yn ei oruchwylio

**4.2** cyfrannu at asesiadau'r myfyriwr i lywio penderfyniadau ar ddilyniant

**4.3** cael digon o gyfleoedd i ymgysylltu ag aseswyr ymarfer ac aseswyr academaidd i rannu arsylwadau perthnasol ar ymddygiad, hyfedredd a chyflawni'r myfyrwyr y maent yn ei oruchwylio, ac

**4.4** ymwybodol bod disgwyl iddynt godi ac ymateb i bryderon ynghylch ymddygiad a hyfedredd myfyrwyr yn briodol, a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

## 5. Goruchwylwyr ymarfer: paratoi

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer, sicrhau bod y goruchwylwyr ymarfer yn

**5.1** derbyn cefnogaeth barhaus er mwyn paratoi, myfyrio a datblygu ar gyfer goruchwylio effeithiol a chyfrannu at, ddysgu ac asesu myfyrwyr, ac

**5.2** deall y safonau hyfedredd a'r canlyniadau rhaglenni y maent yn cefnogi myfyrwyr i'w cyflawni.

# Asesu myfyrwyr a chadarnhau hyfedredd

Mae asesiadau myfyrwyr yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gadarn ac yn wrthrychol. Mae asesiadau a chadarnhau hyfedredd yn seiliedig ar ddealltwriaeth o gyflawniadau myfyrwyr ar draws meysydd theori ac ymarfer.
Mae asesiadau a'r broses o gadarnhau hyfedredd yn amserol, gan roi sicrwydd o gyflawniadau a gallu myfyrwyr.

## 6. Rolau asesydd

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer, sicrhau bod:

**6.1** pob myfyriwr ar raglen a gymeradwywyd gan yr NMC yn cael ei neilltuo i aseswr academaidd enwebedig gwahanol ar gyfer pob rhan o'r rhaglen addysg

**6.2** pob myfyriwr ar raglen a gymeradwywyd gan yr NMC yn cael ei neilltuo i aseswr ymarfer enwebedig ar gyfer lleoliad ymarfer neu gyfres o leoliadau ymarfer, yn unol â pholisïau lleol a chenedlaethol

**6.3** myfyrwyr nyrsio yn cael eu neilltuo i aseswyr ymarfer ac academaidd sy'n nyrsys cofrestredig â'r NMC â phrofiad cyfatebol priodol o faes ymarfer y myfyriwr

**6.4** myfyrwyr bydwreigiaeth yn cael eu neilltuo i aseswyr ymarfer ac academaidd sy'n fydwragedd cofrestredig â'r NMC

**6.5** myfyrwyr nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN) yn cael eu neilltuo i aseswyr ymarfer ac academaidd sy'n nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol cofrestredig â'r NMC sydd â phrofiad cyfatebol priodol ar gyfer maes ymarfer y myfyriwr

**6.6** myfyrwyr cymdeithion nyrsio yn cael eu neilltuo i aseswyr ymarfer ac academaidd sydd naill ai'n gymdeithion nyrsio gofrestredig â'r NMC neu'n nyrs gofrestredig â'r NMC

**6.7** myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster ôl-gofrestru a gymeradwyir gan yr NMC yn cael eu neilltuo i aseswyr ymarfer ac academaidd yn unol â safonau perthnasol y rhaglen

**6.8** aseswyr ymarfer ac academaidd yn cael cefnogaeth barhaus i gyflawni eu rolau, a

**6.9** bod disgwyl i aseswyr ymarfer ac academaidd godi ac ymateb yn briodol i unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad, gallu a chyflawni myfyrwyr, a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

## 7. Aseswyr ymarfer: cyfrifoldebau

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer, sicrhau bod:

**7.1** aseswyr ymarfer yn cynnal asesiadau i gadarnhau bod myfyrwyr wedi cyflawni hyfedreddau a chanlyniadau rhaglenni ar gyfer dysgu ymarfer

**7.2** penderfyniadau asesu aseswyr ymarfer yn cael eu llywio gan adborth a geisiwyd ac a gafwyd gan oruchwylwyr ymarfer

**7.3** aseswyr ymarfer yn gwneud ac yn cofnodi asesiadau gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ymddygiad, hyfedredd a chyflawniad, gan ddefnyddio cofnodion myfyrwyr, arsylwadau uniongyrchol, ystyriaethau'r myfyriwr ei hun ac adnoddau eraill

**7.4** aseswyr ymarfer yn cynnal eu gwybodaeth gyfredol a'u harbenigedd sy'n berthnasol i'r hyfedreddau a chanlyniadau rhaglen y maent yn eu hasesu

**7.5** aseswr ymarfer enwebedig yn gweithio mewn partneriaeth â'r aseswr academaidd enwebedig i werthuso ac argymell bod y myfyriwr yn symud ymlaen drwy'r rhaglen ar gyfer pob rhan o'r rhaglen, yn unol â safonau'r rhaglen a pholisïau lleol a chenedlaethol

**7.6** digon o gyfleoedd i'r aseswr ymarfer arsylwi ar y myfyriwr o bryd i'w gilydd mewn amgylcheddau gwahanol er mwyn llywio penderfyniadau ar asesu a dilyniant

**7.7** digon o gyfleoedd i'r aseswr ymarfer gasglu a chydgysylltu adborth gan oruchwylwyr ymarfer, unrhyw aseswyr ymarfer eraill a phobl berthnasol, er mwyn cael sicrwydd ynghylch eu penderfyniadau ar asesu a dilyniant

**7.8** aseswyr ymarfer yn deall dysgu a chyflawni'r myfyriwr ym maes theori

**7.9** aseswyr ymarfer ac academaidd yn trefnu cyfathrebu a chydgysylltu ar bwyntiau perthnasol o'r rhaglen a dilyniant y myfyriwr

**7.10** aseswyr ymarfer ddim yn oruchwylydd ymarfer nac yn aseswr academaidd ar yr un pryd ar gyfer yr un myfyriwr, a

**7.11** aseswyr ymarfer sy'n asesu myfyrwyr ar raglenni rhagnodi a gymeradwywyd gan yr NMC yn cefnogi dysgu yn unol â Safonau rhaglenni rhagnodi'r NMC.

## 8. Aseswyr ymarfer: paratoi

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer, sicrhau bod aseswyr ymarfer yn:

**8.1** ymgymryd â pharatoi neu'n dangos tystiolaeth o ddysgu a phrofiad blaenorol sy'n eu galluogi i ddangos eu bod wedi sicrhau'r canlyniadau isafswm gofynnol canlynol:

**8.1.1** sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu sy'n berthnasol i ddysgu ac asesiadau myfyrwyr

**8.1.2** asesu myfyrwyr yn wrthrychol mewn ffordd sy'n seiliedig ar dystiolaeth

**8.1.3** rhoi adborth adeiladol er mwyn hyrwyddo eraill i ddatblygu'n broffesiynol, a

**8.2** gwybodaeth am y broses asesu a'u rôl oddi mewn iddi

**8.3** cael cefnogaeth a hyfforddiant parhaus i fyfyrio a datblygu yn eu rôl

**8.4** parhau'n rhagweithiol i ddatblygu eu hymarfer a'u gwybodaeth broffesiynol er mwyn cyflawni eu rôl, ac

**8.5** yn meddu ar ddealltwriaeth o'r hyfedreddau a chanlyniadau'r rhaglenni y mae'r myfyriwr sy'n cael ei asesu ganddynt yn ceisio eu cyflawni.

## 9. Aseswyr academaidd: cyfrifoldebau

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer, sicrhau bod:

**9.1** aseswyr academaidd yn coladu ac yn cadarnhau bod myfyriwr wedi cyrhaeddiad yr hyfedreddau gan y myfyriwr a chanlyniadau yn yr amgylchedd academaidd ar gyfer pob rhan o'r rhaglen

**9.2** aseswyr ymarfer yn gwneud ac yn cofnodi penderfyniadau gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar ymddygiad, hyfedredd a chyflawniad, ac argymhellion ar gyfer dilyniant, gan ddefnyddio cofnodion myfyrwyr ac adnoddau eraill

**9.3** aseswyr academaidd yn cynnal eu gwybodaeth gyfredol a'u harbenigedd sy'n berthnasol i'r hyfedreddau ac i ganlyniadau rhaglenni maent yn eu hasesu a'u cadarnhau

**9.4** yr aseswr academaidd enwebedig yn gweithio mewn partneriaeth ag aseswr ymarfer enwebedig i werthuso ac argymell bod y myfyriwr yn symud ymlaen ar gyfer pob rhan o'r rhaglen, yn unol â safonau rhaglenni a pholisïau lleol a chenedlaethol

**9.5** aseswyr academaidd â dealltwriaeth o ddysgu a chyflawni'r myfyriwr yn y maes ymarfer

**9.6** aseswyr academaidd ac aseswyr ymarfer yn trefnu cyfathrebu a chydgysylltu ar bwyntiau perthnasol o strwythur y rhaglen a dilyniant y myfyriwr, ac

**9.7** nid yw aseswyr academaidd yn oruchwylydd ymarfer ac yn aseswr ymarfer ar yr un pryd ar gyfer yr un myfyriwr.

## 10. Aseswyr academaidd: paratoi

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer, sicrhau bod aseswyr academaidd yn:

**10.1** gweithio tuag at neu'n meddu ar gymwysterau perthnasol, gymwysterau perthnasol, fel sy'n ofynnol gan eu sefydliad academaidd a pholisïau lleol a chenedlaethol

**10.2** dangos eu bod wedi sicrhau'r isafswm canlyniadau gofynnol canlynol

- **10.2.1** sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu sy'n berthnasol i ddysgu ac asesu myfyrwyr
- **10.2.2** asesu myfyrwyr yn wrthrychol mewn ffordd sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- **10.2.3** rhoi adborth adeiladol er mwyn hyrwyddo eraill i ddatblygu'n broffesiynol, a
- **10.2.4** gwybodaeth am y broses asesu a'u rôl oddi mewn iddi

**10.3** cael cefnogaeth a hyfforddiant parhaus i adlewyrchu a datblygu yn eu rôl

**10.4** datblygu eu hymarfer a'u gwybodaeth broffesiynol yn rhagweithiol er mwyn cyflawni eu rôl, ac

**10.5** yn meddu ar ddealltwriaeth o'r hyfedreddau a chanlyniadau'r rhaglenni y mae'r myfyriwr sy'n cael ei asesu ganddynt yn ceisio eu cyflawni.

# Geirfa

**Sefydliadau addysg cymeradwy (SACau):** y statws a ddyfarnir gan yr NMC i a sefydliad, neu ran o sefydliad, neu gyfuniad o sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â lleoli ymarfer a darparwyr dysgu'r gweithle. Bydd SACau wedi darparu sicrwydd i ni eu bod yn atebol a'u bod yn gallu cyflwyno rhaglenni addysg wedi'u cymeradwyo gan yr NMC.

**Cydgynhyrchu:** pan fydd unigolyn yn dylanwadu ar y gefnogaeth a'r gwasanaethau a dderbyniwyd, neu pan fydd grwpiau o bobl yn dod at ei gilydd i ddylanwadu ar y ffordd y dylunnir, comisiynir a chyflenwir gwasanaethau, gan gydnabod fod gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd (a'u teuluoedd) wybodaeth a phrofiad y gellir eu defnyddio i helpu gwella gwasanaethau. Mae cyd-gynhyrchu yn un o egwyddorion y Ddeddf Gofal 2014.

**Addysgwyr:** yng nghyd-destun safonau'r NMC ar gyfer addysg a hyfforddiant, addysgwyr yw'r rhai sy'n cyflenwi, cefnogi, goruchwylio ac yn asesu theori, ymarfer a/neu ddysgu wedi'i leoli yn y gwaith.

**Deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol:** mae'n gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a nodweddion eraill. Gall cyfreithiau gwrth-wahaniaethu fod yn wlad-benodol a cheir camau gwarchodol rhyngwladol sy'n gyfreithiol-rwymol.

**Amgylcheddau dysgu:** yn cynnwys unrhyw amgylchedd yn nhermau lleoliad ffisegol lle mae dysgu'n cymryd lle yn ogystal â'r system o werthoedd, credoau ac ymddygiad a rennir o fewn y llefydd hyn.

**Pobl:** unigolion neu grwpiau sy'n derbyn gwasanaethau gan nyrsys a bydwragedd, pobl iach a sâl, rhieni, plant, teuluoedd, gofalwyr, cynrychiolwyr, gan gynnwys addysgwyr, myfyrwyr ac eraill o fewn a thu allan i'r amgylchedd dysgu.

**Partneriaid dysgu ymarfer:** sefydliadau sy'n darparu dysgu ymarfer sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi myfyrwyr cyn-gofrestru ac ôl-gofrestru wrth iddynt fodloni hyfedreddau a chanlyniadau rhaglenni.

**Sicrwydd ansawdd:** prosesau'r NMC ar gyfer sicrhau bod yr holl SACau a'u rhaglenni addysg cymeradwy yn cydymffurfio â'n safonau.

**Addasiadau rhesymol:** lle mae myfyriwr angen addasiad rhesymol sy'n gysylltiedig ag anabledd neu addasiad sy'n gysylltiedig ag unrhyw nodwedd a gwarchodedig fel y'i cyflwynir yn neddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

**Cydnabod dysgu blaenorol:** proses sy'n ei gwneud yn bosibl i ddysgu ardystiedig neu ddysgu drwy brofiad blaenorol gael ei gydnabod a'i dderbyn fel dysgu sy'n cyflawni rhai o ganlyniadau rhaglen, mae hyn yn golygu ei fod yn cynnwys cyflawniadau ym maes theori ac ymarfer.

**Efelychu:** dull addysgol sy'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n cefnogi myfyrwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, ymddygiad a sgiliau, gyda'r cyfle am ailadrodd, adborth, gwerthuso a myfyrio er mwyn cyflawni canlyniadau eu rhaglenni a'u cadarnhau o allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Rhanddeiliaid:** unrhyw unigolyn, grŵp neu sefydliad sydd â diddordeb neu fudd yn y sefyllfa dan sylw, a all effeithio ar weithrediadau, amcanion neu bolisïau'r sefyllfa honno, neu y gallai'r gweithrediadau, amcanion neu bolisïau hynny effeithio arno. Yng nghyd-destun Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yr NMC, mae hyn yn cynnwys myfyrwyr, addysgwyr, sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, cyflogwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, rheoleiddwyr eraill a chomisiynwyr addysg.

**Myfyriwr:** unrhyw unigolyn sy'n cofrestru ar gyfer rhaglen addysg a gymeradwywyd gan yr NMC, p'un a yw hynny'n llawn amser neu'n llai na llawn amser.

**Amser dysgu wedi'i gefnogi:** amser i hyrwyddo dysgu. Gall hyn gynnwys statws ychwanegol[2] sy'n galluogi myfyrwyr gael eu cefnogi i gyflawni hyfedredd yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Defnyddwyr gwasanaethau:** pobl sy'n cyrchu gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol, ac unrhyw berson sy'n cefnogi anghenion ac amgylchiadau'r bobl hyn.

---

**2** Ychwanegol: Gweler Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr a safonau rhaglenni penodol.

# Yr hyn a wnawn

in gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 771,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)